CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddiad atodol ynghylch goblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

> *Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*
>
> *(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

Cyflwyniad:

2. Clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) gan John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar 2 Hydref a 6 Tachwedd. Yn dilyn hynny, cyflwynodd y Gweinidog dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol yn ymhelaethu ar y wybodaeth sydd i'w chael ym memorandwm esboniadol y Mesur.

3. Methodd yr ymatebion a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog ar y pryd a'r wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol â lleddfu pryderon y Pwyllgor Cyllid nad oedd y Llywodraeth wedi esbonio sail ei hamcangyfrifon a'i chyfrifiadau.

4. Casgliad yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cyllid ar 25 Tachwedd oedd na allai asesu effaith y Mesur arfaethedig mewn modd dibynadwy ac nad oedd ganddo fawr o ddewis ond argymell na ddylid cynnal y dadl Cyfnod 1 ar y Mesur nes bod gwybodaeth ariannol fanylach wedi'i chyflwyno ar gyfer craffu arni.

Gwybodaeth bellach

5. Yn dilyn hyn, rhoddodd y Dirprwy Weinidog dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol ynghylch y Mesur arfaethedig i'r Pwyllgor Cyllid a rhoddodd, ynghyd â'i swyddogion, dystiolaeth lafar yn ystod cyfarfod y pwyllgor ar 4 Rhagfyr.

6. Llwyddodd y wybodaeth newydd hon i ateb llawer o gwestiynau'r pwyllgor. Er hynny, amlygodd Aelodau'r pwyllgor rai materion na chafodd eu datrys yn llawn. Dyma'r materion:

- Y dybiaeth ymddangosiadol gymedrol ynghylch y cynnydd yn y nifer a fydd yn cymryd rhan a'r angen i ariannu'n llawn y cynnydd uwch na'r hyn a ragwelwyd

- Anhyblygrwydd y swm o £75,000 a ddyrennir i bob Rhwydwaith Dysgu ar gyfer gweithredu'r Mesur, heb ystyried unrhyw anghenion gwahanol
- Diffyg ymddangosiadol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Yr angen posibl am adnoddau ychwanegol er mwyn diwallu anghenion penodol ardaloedd gwledig ac unrhyw weithgaredd trawsffiniol.

Casgliadau

7. Mae'r Pwyllgor Cyllid bellach yn fodlon bod y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cynnal gwaith craffu priodol ar y Mesur arfaethedig wedi ei rhoi a bod llawer o'i bryderon wedi eu datrys. Er hynny, mae'r pwyllgor yn siomedig na chafodd y wybodaeth ychwanegol, yr oedd yn amlwg ym meddiant y Llywodraeth, ynghyd â manylion y dadansoddiad a oedd eisoes wedi ei gynnal, ei chyflwyno yn gynt.

8. Er hynny, mae'r pwyllgor bellach yn fodlon bod y pryderon a fynegodd yn ei adroddiad gwreiddiol wedi eu hateb ac mae'n argymell y dylid pasio'r Mesur o safbwynt ariannol ac na ddylid ei rwystro rhag symud ymlaen i gyfnod 2.